



Ein cyf/Our ref LG/02782/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

mick.antoniw@senedd.wales

2nd Rhagfyr 2020

Annwyl Mick,

Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: Rheoliadau Cynnyrch Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio Etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd am eich pryderon ynghylch Rheoliadau Cynnyrch Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020.

Mae'r Rheoliadau'n cywiro diffygion trwy ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir ynghylch Dynodiadau Daeryddol (GI) perthnasol i sicrhau bod y gyfraith yn gweithredu'n effeithiol o 1 Ionawr 2021 pan ddaw'r Cyfnod Pontio i ben. Mae hyn yn fater hawdd ei ddatrys i sicrhau bod gennym, yn unol â'r polisi, gynllun olynw cynhwysfawr fydd yn barod ar unwaith.

Bydd yn cyflawni nod cyntaf Llywodraeth Cymru o roi sicrwydd a pharhad, nod y mae busnesau Cymru hefyd yn cyrchu ato. Mae bwyd a diod Cymru'n cael eu masnachu o fewn marchnad y DU, nid o fewn Cymru'n unig. Mae gan drefn achredu a hyrwyddo a gynigir trwy gynllun GI sy'n gyffredin i'r DU y potensial y gael llawer mwy o effaith, gan ategu ein strategaeth gyffredinol ar gyfer helpu'r sector bwyd a diod i dyfu, o ran maint ac enw da.

Bydd y cynllun Prydeinig hwn yn gyfrwng i sicrhau bod cynnyrch gwarchoddedig Cymru a'r DU yn dal i gael eu hamddiffyn yn ein marchnadoedd domestig a hefyd, eu bod yn cael eu cydnabod yn yr UE. Rhaid felly i'r DU greu cynllun sy'n bodloni gofynion yr UE er mwyn iddi allu ymuno â chynlluniau'r EUGI fel trydedd wlad. Bydd ymgeiswyr newydd llwyddiannus â chynllun y DU yn glir wedyn i ofyn am gydnabyddiaeth yr UE os dyna'u dewis. Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod yr un ymddiriedaeth a chydabyddiaeth i'r cynllun gan gwsmeriaid trwy Gymru, y DU a'r byd.

Mae'r Rheoliadau'n rhoi yn ei le y polisi a ffefrir ar gyfer yr holl weinyddiaethau datganoledig o fewn amserlen rydym yn cytuno â hi.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi perswadio Defra i greu cynllun y cawn mewnbwn boddhaol iddo ynghylch arfarnu ceisiadau mewn ffordd dryloywo a gwrthrychol. Mae proses gynhwysfawr wedi'i dylunio ar y cyd ac rwy'n fodlon y dylai greu cynllun llwyddiannus.

Mae'n amlwg wrth ddatblygu'r polisi a'r broses ddeddfwriaethol nad oedd Defra am roi rôl statudol i Weinidogion Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill a'r unig ganlyniad yr oedd Defra am ei dderbyn oedd un fyddai'n rhoi'r holl swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Nod ein polisi ni o'r dechrau oedd creu cynllun DU gyfan, gan sicrhau dilyniant difwlch rhwng dechrau'r cynllun hwnnw a diwedd cynllun yr UE, a bod cyfleoedd priodol i Lywodraeth Cymru gael cyfrannu at y broses arfarnu ceisiadau. Mae'r broses reoleiddio a gweinyddu rydym wedi cytuno arni â Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gwireddu hynny ac mae gennym broses glir ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau all godi. O ganlyniad, nid oes angen inni ystyried cwestiynau pellach ynghylch sut mae swyddogaethau yn cael eu rhoi am y tro.

Gan edrych tua'r dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru'n chwarae ei rhan lawn yn y cynllun newydd a byddwn yn ei fonitro ac yn ei werthuso'n ofalus. Rydym yn gobeithio am lwyddiant yn hyn o beth ond byddwn wrth reswm yn ystyried priodoldeb a defnyddioldeb y trefniadau wrth i'n polisi ein hunain ddatblygu ac wrth i farchnadoedd y DU a rhyngwladol addasu ar ôl Brexit.

Ynghylch gorchymyn adran 109, mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y caiff ei roi gerbon y Senedd cyn Nadolig.

Yn Gywir,



Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.